Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

Rheolwr Cynorthwyol Iechyd, Diogelwch a Lles

Parhaol
GRADD12

Rhif Swydd NU282

37 AWR YR WYTHNOS

CYFLOG: £ 32,878 p. a - £33,799 p. a.
(A fyddech gystal â nodi fod pob cyflog yn amodol ar werthusiad swydd)

Mae cyfle cyffrous wedi codi o fewn yr Adran Rheoli Risg Weithredol a leolir ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân, Parc Busnes Forest View, Llantrisant ar gyfer rôl Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles Cynorthwyol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol am gynorthwyo'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch Lles mewn cynnal Tîm Iechyd, Diogelwch a Lles sy'n darparu cyngor iechyd, diogelwch a lles arbenigol cywir gan gynnwys cymorth ymarferol mewn perthynas â phob agwedd o reolaeth iechyd a diogelwch o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gyfrifol yn uniongyrchol am reoli Swyddogion Iechyd, Diogelwch a Lles a'r Gweinyddwr Iechyd, Diogelwch a Lles a dirprwyo dros y Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles yn eu habsenoldeb.

NODER - Mae'r swydd hon yn cynnwys cynrychioli'r Gwasanaeth mewn cysylltiad ag Iechyd a Diogelwch ar weithgorau/grwpiau/pwyllgorau a phaneli yn fewnol ac yn allanol ill dau, yn lleol ac yn genedlaethol, a lle bo angen bydd gofyn i'r unigolyn deithio'n annibynnol.

Bydd hefyd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus fod â dull hyblyg o weithio, oherwydd gallai bod gofyn iddo/iddi gynnal gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch gyda'r nos ac ar benwythnosau er mwyn cefnogi gofynion gwasanaeth brys 24/7.

Bydd y rôl hefyd yn cynnwys ymgymryd ag archwiliadau Iechyd a Diogelwch mewnol a lle y bo'n briodol, ar y cyd â gwasanaethau grwpiau cymheiriaid, yn ogystal ag adrodd ar argymhellion a'u gweithredu lle y bo'n berthnasol.
Mae sgiliau Iaith Gymraeg yn ddymunol ar gyfer y swydd hon ond nid yn hanfodol.

I gael gwybod mwy am y swydd hon, cysylltwch â'r Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles, Martin Hole drwy e-bost: m-hole@southwales-fire.gov.uk neu ffonio: 01443 232309.

Cyn y gwneir penodiad, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gymryd y profion a'r gwiriad canlynol:-

- Prawf Cyffuriau ac Alcohol
- Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o dudalen Gweithio i Ni/ Swyddi Gwag Diweddaraf ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk . Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00, canol dydd, 20/5/2019**. Dylid dychwelyd ffurflenni Cais Gorffenedig drwy law e-bost i personnel@southwales-fire.gov.uk neu gyda'r post i'r Tîm recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub de Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX. Mae'r dyddiad ar gyfer y broses ddethol eto i'w gadarnhau.

Sefydliad sy'n ystyriol o deuluoedd ydym a gweithredir polisi gweithio'n hyblyg.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. Mae croeso i chi gyfathrebu â ni naill ai yn Saesneg neu yn Gymraeg. Ni chaiff ffurflenni cais a gyflwynir yn Gymraeg eu trin yn llai ffafriol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru'n credu yng ngwir werth gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol ymgeiswyr o bob sector cymdeithas i ymgeisio.

POSITIVE ABOUT DISABLED PEOPLE